


# Cartrefi: Ar Gyfer Pob Dyfodol

## Cenhadaeth Adre o’r Ysbyty i roi diwedd ar y gosb tai ar gyfer cleifion yng Nghymru

Mae cost ddynol yr argyfwng tai yn ddybryd, mae’n effeithio’n ddwfn ar iechyd, cyfoeth a chyfleoedd bywyd ar draws ein cenedl. Credwn fod tymor nesaf y Senedd yn cynnig trobwynt ar gyfer newid. **Mae cartrefi da yn seilwaith atal yng Nghymru a rydym angen cynllun cadarn ac ymarferol i roi diwedd ar yr argyfwng tai.**

Fel rhan o’n hymgyrch dros newid, **Cartrefi: Ar Gyfer Pob Dyfodol**, rydym yn galw ar y llywodraeth nesaf i gymryd camau gweithredu cadarn a lansio **cenhadaeth adre o’r ysbyty i gael pobl sy’n barod i fynd adre o’r ysbyty yn gyflymach.**

## YR HER: SYSTEM SYDD AR FIN TORRI

- **Mae aros mewn ysbyty pan ydych yn barod i fynd adre yn niweidiol:** Ym mis Rhagfyr 2025, roedd 1,401 o bobl[1] yn gaeth i welyau ysbyty er eu bod yn ddigon da i adael. Am bob diwrnod ychwanegol mae rhywun yn ei dreulio mewn gwely ysbyty, maent yn wynebu “datgyflyru” – colli nerth cyhyrau yn gyflym – a risg uwch o haint. Gall hefyd ostwng hyder a thebygrwydd adsefydlu os ffurfir dibyniaeth.
- **Y gosb tai:** Er fod gohiriadau cyffredinol wrth ryddhau o ysbyty yn gostwng, mae’r rhai a achosir gan broblemau tai yn gwaethygu – gan gynyddu o 63 diwrnod ar gyfartaledd yn 2023 i 76 diwrnod yn 2025.[2]

[1] https://statscymru.llyw.cymru/Catalog/Iechyd-a-Gofal-Cymdeithasol/GIG-Perfformiad/oedi-llwybr-gofal

[2] Adeiladu Lleoedd Iachach a Thecach: Effaith Cyfyngiadau Tai ar Ysbytai GIG, Cartrefi Cymunedol Cymru, 2026

- **Mae cost peidio gweithredu yn gwaethygu oedi ar restri aros:** Mae oedi cronnus cysylltiedig â thai yn costio £2.49 miliwn[3] i GIG Cymru. Mae hwn yn arian a lle mewn gwelyau y gellid ei ddefnyddio i fynd i'r afael â rhestri aros am driniaethau dewisol.

## Y CYFLE: CATALYDD AR GYFER ADNEWYDDU'R GIG

Buddsoddi yn ein cartrefi yw'r buddsoddiad gorau y gallwn ei wneud yn iechyd Cymru. Drwy alinio nodau tai gyda thargedau iechyd, gallwn warchod tenantiaid rhag niwed arosiadau hir a throi argyfwng cenedlaethol yn don o adferiad ar gyfer pob daliadaeth – p'un ai'n gymdeithasol, preifat neu berchen-feddiannaeth.

- **Lluosydd economaidd:** Mae pob **£1** a fuddsoddir gan gymdeithasau tai yn ysgogi **90c** ar gyfer economi Cymru.
- **Dyfodol "Cartref yn Gyntaf":** Bydd symud y ffocws o'r ysbyty i'r gymuned fel canolbwynt gofal iechyd yn gostwng nifer y bobl sy'n dychwelyd i ysbyty yn ddiangen a galluogi'r GIG i fod â ffocws ar ofal aciwt.

## Cenhadaeth genedlaethol "Adre o'r Ysbyty"

Mae'r argyfwng tai yng Nghymru yn fwy na dim ond am frics a morter; mae'n ymwneud ag iechyd a phobl. Ar hyn o bryd, mae diffyg cartrefi addas, diogel a chynnes yn creu "tagfa" sy'n gadael cleifion ar y clwt yn yr ysbyty a rhoi eu hadferiad mewn risg. **Dylai'r llywodraeth nesaf lansio cenhadaeth adre o'r ysbyty.** Dylai'r genhadaeth hon fynd ati'n gyflym i ddynodi ffyrdd y gallai systemau tai, iechyd a gofal gydweithio'n well i ostwng trosglwyddiadau gohiriedig mewn gofal. Mae dros 1400 o bobl sy'n ddigon da i adael yr ysbyty sy'n aros yn llawer hirach nag sy'n rhaid iddynt. **Mae'r rhai sy'n aros i fynd adre yn wynebu cosb tai a welodd ohiriadau yn cynyddu eto, yn groes i'r tueddiad cenedlaethol.** Mae'n rhaid i gael pobl i fynd adre ynghynt fod yn ffocws allweddol ar gyfer y genhadaeth.

[3] Adeiladu Lleoedd Iachach a Thecach: Effaith Cyfyngiadau Tai ar Ysbytai GIG, Cartrefi Cymunedol Cymru, 2026




**Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi'r camau gweithredu a'r ystyriaethau fel y gall Llywodraeth newydd wneud cynnydd penderfynol a chyflym i roi diwedd ar y gosb tai.**

# Tri cham gweithredu allweddol i fynd i'r afael â'r gosb tai:

### 1. Sefydlu atebolrwydd ar y cyd

- **Atebolrwydd unedig:** Rhannu dangosyddion perfformiad ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng nghyswllt rhyddhau gohiriedig o ysbyty.
- **Rhannu gwybodaeth data:** Cysylltu data derbyn i ysbyty gyda gwybodaeth tai fel bod cynllunio rhyddhau ac asesiadau diogelwch yn dechrau'r foment yr aiff claf i'r ysbyty. Dylid defnyddio dyletswyddau newydd 'Gofyn a Gweithredu' dan y Ddeddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol i gadarnhau hyn yn ddiwylliannol o fewn timau derbyn.
- **Buddsoddi mewn 'pont' rhwng sectorau:** Gallai hyn gynnwys rôl cydlynu a allai weithredu fel pont rhwng tai, iechyd, gofal a'r sectorau anstatudol a medru gweithio gyda phartneriaid i roi opsiynau i glinigwyr a fedrai, lle'n briodol, weithredu fel cynnig amgen hyfyw a diogel i becyn gofal cymdeithasol ffurfiol.

### 2. Ehangu "rhyddhau ar gyfer adfer ac asesu"

- **Camu lawr fel gofod clinigol:** Lle bo hynny'n addas, defnyddio seilwaith tai presennol (tebyg i gynlluniau gofal ychwanegol a byw annibynnol) fel gwelyau "camu lawr" lle gall pobl barhau i wella ar ôl gadael y ward.
- **Adferiad adre:** Lle bo hynny'n addas, sicrhau y gall asesiadau gofal hirdymor ddigwydd yn amgylchedd cartref unigolyn yn hytrach nag mewn ward ysbyty. Mae hyn yn gostwng pryder cleifion ac yn sicrhau fod y cymorth a gânt yn union yr hyn sydd ei angen ar gyfer eu lleoliad bywyd go iawn.
- **Cynllunio a chyllido mwy o gapasiti a chymorth cymunedol:** Cyllido a chydlynu gyda darparwyr lleol yn cynnwys Gofal a Thrwsio, gofal cymdeithasol a chymdeithasau tai. Dylai'r cymorth ganolbwyntio ar yr unigolyn ac amrywio o gymorth ailsefydlu i wasanaethau gofal mwy dwys. Dylid ystyried yr adnodd ychwanegol hwn yn erbyn yr arbedion i'r pwrs cyhoeddus o ostwng trosglwyddiadau gohiriedig gofal.




**3. Sicrhau'r sylfaen ariannol i ostwng gohiriadau cysylltiedig â thai:**

- **Diogelu atal:** Rhoi cynnydd chwyddiant aml-flwyddyn ar gyfer y **Grant Cymorth Tai.** Mae'r gwasanaethau cymorth tai a gyllidir gan y Grant Cymorth Tai yn rhan o seilwaith atal Cymru – gan gadw pobl yn annibynnol ac allan o ysbyty yn y lle cyntaf.
- **Llwybr carlam i "atgyweiriadau bach" ac addasiadau:** Cynyddu'r cyllid ar gyfer addasiadau cyflym, graddfa fach ac atgyweiriadau hanfodol (tebyg i drwsio boeler sydd wedi torri neu do sy'n gollwng). Yn aml, gall gwaith trwsio sy'n costio llai na £150 arbed miloedd o bunnau i'r GIG mewn dyddiau gwely "coll".
- **Diwygio ac asesu'r Grant Addasiadau Ffisegol:** Mynd i'r afael â'r diffyg cyllid sylweddol lle mae darparwyr yn methu ateb y galw ar hyn o bryd ac y gallent gyflawni hyd at ddeg gwaith yn fwy o waith o gael adnoddau digonol a dileu haenau o fiwrocratiaeth Llywodraeth Cymru a chylchoedd blynyddol "ymyl dibyn" i ganiatáu darparu newidiadau mwy hyblyg a chyflym i gartrefi
- **Asesiadau partner dibynadwy:** Galluogi cymdeithasau tai a phartneriaid fel Gofal a Thrwsio i gynnal eu hasesiadau eu hunain ar gyfer mân newidiadau a lle nad oes angen asesiad llawn gan therapydd galwedigaethol i gael cleifion adre wythnosau yn gyflymach. Mae cynllun Ysbyty i Gartref Iachach Gofal a Thrwsio eisoes yn dangos y gall hyn weithio'n dda mewn cymunedau.

*Gair o Ddiolch:* Cafodd y syniadau yn y ddogfen hon eu paratoi drwy ymgysylltu gyda chymdeithasau tai a phartneriaid drwy gyfres bwrdd crwn 'Sut i roi diwedd ar yr argyfwng tai' CHC. Rydym yn ddiolchgar i'r partneriaid canlynol am gymryd rhan yn y trafodaethau hynny: Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Conffederasiwn GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Care & Repair Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.